- Porth y Gorllewin, Wrecsam – mae adolygiad o'r prosiect yn cael ei gynnal i asesu ei gallu i gwrdd â phrofion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi ar y priffyrdd.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Mae'r arolygon sy'n weddill bellach wedi'u cwblhau a'u rhannu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2024</u>

4.5.1. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.5.3. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, oedi, buddsoddiad sector gyhoeddus a preifat, caniatáu ac amcanion gwariant. Mae'r risg ar gapasiti wedi lleihau gan bod y tîm bellach yn llawn ac mae bwriad caffael cymorth arbenigol ychwanegol (caffael, rheoli prosiect ayyb) ar y gweill yn dilyn un o argymhellion y PAR.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2024 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw"

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 4. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol."

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 2023-24
(Ionawr - Mawrth 2024)



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys yr Adroddiad

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio ....... 3

2. Perfformiad Portffolio ....... 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol ....... 5

5. Perfformiad y Rhaglen Tir and Eiddo ....... 10

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ....... 15

8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau ....... 17

9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf ....... 18

10. Traciwr Amcanion – Trosolwg o gyflawni ....... 19

11. Cynllun Twf - Proffil Gwariant Cyfalaf wedi'i Addasu yn ôl Risg ....... 20

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf ....... 21

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf ....... 22

# 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio

Yn ystod y chwarter hwn, gwelwyd dau Achos Busnes Amlinellol yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Y cyntaf oedd prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, sy'n cynnwys atgyweirio adeilad rhestredig Gradd 2*, datblygu tai newydd a gofodau gwyrdd, cyfleuster sgiliau a hyfforddi ynghyd â dros 1,000m$^2$ o ofod masnachol. Yr ail oedd y prosiect 4G+ (Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol), sydd â'r nod o gyflawni darpariaeth 4G ar draws Gogledd Cymru gan bob un o'r pedwar Gweithredwr Rhwydwaith Symudol (MNOs), i sicrhau bod Gogledd Cymru wedi'i arfogi ar gyfer mudo i ddarpariaeth 5G o dan 6GHz pan fo'r MNOs yn uwchraddio eu rhwydweithiau.

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y penderfyniad i benodi ariannwr i arwain y gwaith o ddarparu'r Hwb Hydrogen. Daw'r penderfyniad yn dilyn lansio'r Her Ariannu Hydrogen y llynedd. Bydd ariannwr y Prosiect yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau Mabwysiadu Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y partïon. Nod y prosiect yw helpu sefydliadau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil i ddod yn gwsmeriaid hydrogen carbon isel a bydd yn cyflawni cyfleuster cynhyrchu hydrogen gweithredol gyda defnydd o Hydrogen i'w ddisgwyl erbyn 2030. Bydd gwaith yn dechrau yn awr i ddod â'r ariannwr newydd i mewn.

Ym mis Mawrth, cymeradwywyd Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer Gogledd Cymru gan y Bwrdd Uchelgais. Nod y strategaeth yw denu Cynllun Twf a datblygiad economaidd rhanbarthol ehangach i'r rhanbarth.



Mae'r cytundeb ariannu wedi'i lofnodi ar gyfer y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac mae gwaith adeiladu yn dechrau ar y safle. Croesawyd Fay Jones, AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymru a Rebecca Evans. AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gennym i Gampws Plas Coch Prifysgol Wrecsam ar 22 Chwefror i dorri'r dywarchen yn swyddogol.




Fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru gymryd rhan yn wythnos Cymru yn Llundain, gyda Hedd Vaughan-Evans ein Pennaeth Gweithrediadau yn mynychu derbyniad busnes oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddi yng Nghymru a'r cyfleoedd a gyflwynir gan Borthladdoedd Rhydd Cymru, a Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf yn mynychu'r Cinio Dydd Gŵyl Dewi.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn ariannol newydd, mae'n amser cyffrous i Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda nifer o brosiectau yn nesáu at bwynt lle byddant yn cyflawni.



**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

*Alwen Williams*

# 2. Perfformiad Portffolio

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2023. Bydd y prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig hon |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | | Mae pedwerydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Coch' ar gyfer y portffolio. Cynhaliwyd adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Gwyrdd'. Bydd yr adolygiad nesaf yn digwydd yn ystod mis Hydref 2024. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae Rheoli'r Portffolio â chapasiti llawn bellach gyda phenodiadau wedi'u gwneud i'r holl rolau yn llwyddiannus. Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn mis Mawrth, mae contractau tymor penodol (ddim yn cynnwys staff a ariennir gan LEAP neu SPF) wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2026, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| Cyllid | | Mae cyfanswm o £3.96m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd at ddiwedd 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys £2.15m ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol, £0.75m ar y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac £1.06m i ariannu'r gwariant refeniw. |
| Buddsoddiad | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Mawrth. |
| Risg | | Mae proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn gyson â Chwarter 4. Mae'r risg o ran capasiti wedi lleihau oherwydd recriwtio diweddar i'r PMO, ac ychwanegwyd risg newydd at y gofrestr i gynnwys y bwriad o drosglwyddo'r tîm a'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Mae nifer o risgiau gweddilliol uchel yn parhau sy'n cael eu rheoli gan y PMO gan gynnwys fforddiadwyedd, rhoi caniatâd, oedi a buddsoddiad. |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | | Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal gydag Uchelgais Gogledd Cymru a Noddwyr Prosiectau ar sut i ddefnyddio'r platfform Adrodd am Fuddion a ddatblygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae prosiectau i gyd wedi uwchlwytho eu dangosyddion, a byddant yn dechrau poblogi'r platfform dros yr wythnosau nesaf gan alluogi'r timoedd prosiect, rhaglen a phortffolio i olrhain cynnydd tuag at amcanion a buddion gwario. |
| Allyriadau a Bioamrywiaeth | | Cadarnhawyd mai prosiect y Ganolfan Beirianneg Menter ac Opteg oedd y prosiect Cynllun Twf cyntaf i gyrraedd neu ragori ar dargedau Uchelgais Gogledd Cymru, gan ddangos cyflawniad ar allyriadau gweithredol sero net, 40% yn llai o garbon ymgorfforedig a 30% o enillion net mewn bioamrywiaeth. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Rhannwyd y cyhoeddiad ar Gyn Ysbyty Gogledd Cymru, a'r wybodaeth am yr ymweliadau Gweinidogol, yn y wasg. Rhyddhawyd cyfres o nodweddion sain yn amlygu gwybodaeth ar y prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Parhau i dyfu wnaeth ein hymgysylltiad a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 6,400 o ddefnyddwyr gwasanaeth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol '4G+' bellach wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.<br>• Cyflwynwyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Campysau Cysylltiedig 'Di-wifr Uwch' i'w adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae disgwyl iddo gael adolygiad Porth 2 ym mis Mai cyn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ei ystyried. Mae angen gwneud mwy o waith ar yr achos economaidd ar gyfer prosiect LPWAN.<br>• Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi penodi Annog Cyf. i ddarparu cefnogaeth ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gymunedau gwledig yn 2024 i wella eu band eang drwy hyrwyddo talebau'r llywodraeth, cysylltu â gweithredwyr rhwydwaith a thargedu cyngor mewn ardaloedd sy'n profi'r lefelau cysylltedd gwaethaf. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at amcanion gwariant prosiect Ychydig % Olaf y Cynllun Twf sydd wedi cael ei oedi tan fydd caffael traws-ranbarthol Llywodraeth y DU yn dod i ben yn yr haf.<br>• Mae gweithgarwch pellach y prosiect SPF yn awr ar y gweill gydag awdurdodau lleol yn ymchwilio i fabwysiadu cytundebau mynediad asedau i gefnogi buddsoddiad 4G gan y sector preifat. Ym mis Ebrill, bydd prosiect yn dechrau darparu cyngor ac arweiniad wedi'i deilwra i SMEs ar fabwysiadu technolegau rhwydwaith di-wifr datblygedig i wella cynhyrchedd ac effeithlonrwydd. Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at amcanion gwariant prosiectau Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig a Champysau Cysylltiedig y Cynllun Twf. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



David Fitzsimon
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | Cyflawni | • Achos cyfiawnhad busnes Cam 3 (terfynol) wedi'i ddrafftio ar gyfer adolygiad SRO mewnol y prosiect. | • Cyflwyno'r achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydydd gwedd y cyllid i brynu offer. | | • Achos cyfiawnhau busnes terfynol (BJC) i'w gyflwyno i'w adolygu a'i gymeradwyo, disgwylir ar ddechrau Ch1, 24/25; Statws RAG yn ambr tan fydd y BJC yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.<br>• Ceisiadau ariannu Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) oedd yn aflwyddiannus yn Ch4;<br>• Mae'r prosiect yn cyflawni neu'n rhagori ar dargedau ar gydweithrediadau ymchwil, cofrestriadau ar gyrsiau ôl-raddedig, cyhoeddiadau ymchwil, creu swyddi uniongyrchol a thwf GVA (creu swyddi uniongyrchol). |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Oedi ar ddatblygu'r prosiect tan ganlyniad caffael traws-ranbarthol Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU (BDUK) (disgwylir ym mis Gorffennaf 24);<br>• Annog Cyf. wedi'i benodi i ymgymryd â phrosiect cefnogi cysylltedd gwledig wedi'i ariannu gan SPF. | • Dechrau ymgyrch ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer y prosiect SPF. | | • Buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth ar fin dechrau yn dilyn caffael presennol ar gyfer ei fframwaith 'traws-ranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio safle ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf;<br>• Bydd gwaith a ddarperir yn rhanbarthol i hyrwyddo uwchraddiadau lleol yn dechrau o fis Ebrill, wedi'i ariannu gan SPF, dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru ac yn cael ei gyflawni gan Annog Cyf. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i OBC 4G+;<br>• Oedi ar ddatblygu'r prosiect ffibr tan ganlyniad caffael traws-ranbarthol Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU (BDUK) (disgwylir ym mis Gorffennaf 24). | • Ymgysylltu â'r farchnad a dyluniad y cynllun grantiau. | | • Achos Busnes Amlinellol 4G+ wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais;<br>• Prosiect yn awr yn mynd rhagddo i ymgysylltu â'r farchnad a chaffael;<br>• Bydd y prosiect ffibr yn ailddechrau yn dilyn canlyniad caffael traws-rhanbarthol Llywodraeth y DU ar gyfer band eang gigabit. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Lansio caffael ar gyfer prosiect SPF i gyflawni asesiadau cysylltedd ar gyfer SMES ledled y rhanbarth i gefnogi amcanion y prosiect Di-wifr Uwch;<br>• Adolygiad Porth 2 o'r prosiect Di-wifr Uwch wedi'i drefnu (Mai);<br>• Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio o Achos Busnes Amlinellol y prosiect Di-wifr Uwch. | • Penodi contractwr i ymgymryd ag asesiadau cysylltedd SME a dechrau'r prosiect (Ebrill);<br>• Caffael LPWAN;<br>• Y bwrdd i gymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN ac Adolygiad Cyfaill Beirniadol. | | • Achos Busnes Amlinellol Di-wifr Uwch wedi'i ddrafftio ac i fod i gael adolygiad Porth 2 ym mis Mai;<br>• Achos cyfiawnhau busnes LPWAN (BJC) i fod i gael Adolygiad Cyfaill Beirniadol cyn ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais. Mae angen gwneud rhagor o waith ar yr achos economaidd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • **Egni** - Mae adroddiad Cam 2 RIBA wedi'i gymeradwyo gan y tîm prosiect ar ôl ymarfer i brisio dyluniad y peiriannydd.<br>• **Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy** - Cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud i oresgyn materion allweddol yn ymwneud â chytundeb ariannu cyn i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais.<br>• **Hwb Hydrogen** - Mae ariannwr prosiect wedi'u penodi ar gyfer y prosiect ar ôl cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. Mae'r broses i ddod â'r ariannwr prosiect i mewn fel ariannwr bellach ar y gweill.<br>• **Hwb Hydrogen Caergybi** - derbyniodd y prosiect sgôr ambr-gwyrdd yn dilyn Adolygiad Porth, mae'r prosiect ar hyn o bryd yn cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol.<br>• **Cydnerth** - mae strwythur ariannu gan gynnwys Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu i symud y prosiect i'w weithredu, mae'r Penawdau Telerau wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.<br>• **Ynni Lleol Blaengar** - Mae dogfennau tendr Ymgynghorydd y Gronfa wedi'u diweddaru mewn ymateb i adborth y farchnad ac maent yn cael eu cwblhau ar gyfer ail-lansio'r broses gaffael.<br>• **Recriwtio** - Dechreuodd Gareth Rogers yn ei swydd fel Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net (Hydrogen) ar 16 Ebrill. |



Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elgan Roberts
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)** Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cytunwyd ar y ffynonellau cyllido a'r strwythur ariannu ar gyfer y prosiect mewn egwyddor gyda'r cyllidwyr a'r rhan-ddeiliaid allweddol. Mae strwythur benthyciad masnachol gan Uchelgais Gogledd Cymru (sy'n cydymffurfio â rheolaeth cymhorthdal) wedi'i sefydlu. | • Cylchredeg a chytuno ar benawdau telerau benthyciad gyda Menter Môn Morlais,<br>• Cychwyn trafodaethau gyda WEFO a Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau diogelwch ar gyfer benthyciad Uchelgais Gogledd Cymru a'u cyllid eu hunain.<br>• Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024. | | • Mae Achos Busnes Amlinellol wedi'i ohirio gan fod angen penderfyniadau i'r strwythur cyllido i gwblhau strwythur benthyciad Uchelgais Gogledd Cymru a'r achos ariannol dros yr Achos Busnes Amlinellol. |
| **Hwb Hydrogen** Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Asesiad o arianwyr posib wedi'i gwblhau.<br>• Argymhelliad ariannwr wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. | • Dod ag ariannwr newydd y prosiect i mewn.<br>• Cadarnhau amserlen datblygu'r achos busnes. | | • Ychydig o oedi gyda'r broses i benodi'r ariannwr, ond ni effeithir ar yr amserlenni cyffredinol a bydd yr ariannwr yn dod i mewn yn awr. |
| **Egni** Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cam 2 RIBA wedi'i gymeradwyo yn dilyn ymarfer gwerth peirianyddol.<br>• Wedi dechrau gweithgarwch Cam 3 RIBA. | • Cymeradwyo cynllun caffael.<br>• Dechrau'r broses gaffael 2 gam ar gyfer prif gontractwr.<br>• Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. | | • Y prosiect ar y trywydd iawn yn fras. Ychydig o lithriad i amserlen datblygu Cam RIBA y gellid ei grafangu yn ôl ar gyfer Achos Busnes Llawn. Prosiect yn ôl o fewn y gyllideb ar ôl ail-ymweld â RIBA 2. |
| **Ynni Lleol Blaengar** Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae strwythur y Gronfa Ynni Lleol Blaengar wedi'i ddiwygio ychydig i apelio at gynulleidfa ehangach Ymgynghorydd y Gronfa.<br>• Dogfennau tendro wedi'u diweddaru i roi sylw i adborth y farchnad ac i baratoi ar gyfer ail-lansio'r broses gaffael. | • Cwblhau'r dogfennau tendr.<br>• Ail-lansio'r tendr.<br>• Cwblhau'r strategaeth fuddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft, yn derfynol. | | • Oedi i gwblhau'r Achos Busnes Llawn yn derfynol a lansio'r gronfa yn sgil methiant i benodi Ymgynghorydd Cronfa ar yr ymgais gyntaf. |
| **Trawsfynydd** Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Uchelgais Gogledd Cymru wedi rhoi adborth yn ôl ar ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gyfer dewis safleoedd niwclear mewn ymgynghoriad â Gwynedd ac Ynys Môn.<br>• Cwmni Egino wedi cynnal gweithdai Cynllunio Adeiladu ac Arfarnu Opsiynau. | • Cwmni Egino i rannu adroddiad Cynllunio Adeiladu ac Opsiynau gyda rhan-ddeiliaid allweddol.<br>• Dim camau gweithredu sylweddol wedi'u cynllunio nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd. | | • Statws RAG wedi'i newid yn goch gan fod y penderfyniadau sydd eu hangen gan Great British Nuclear a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd fisoedd i ffwrdd sy'n cynyddu'r ansicrwydd ar amserlenni cyflawni'r rhaglen. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy**<br>Datblygiadau'r Economi Cylchol | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Ariannwr y prosiect wedi codi pryderon gyda thelerau allweddol yn y cytundeb ariannu gan arwain at Achos Busnes Llawn ddim yn dod yn ei flaen fel y cynlluniwyd ym mis Chwefror 2024.<br>• Trafodaethau cadarnhaol rhwng timau cyfreithiol sy'n cynrychioli Uchelgais Gogledd Cymru a'r ariannwr i oresgyn heriau sy'n gysylltiedig â thelerau allweddol. | • Cytuno ar y ffordd ymlaen a chwblhau'r cytundeb ariannu.<br>• Cwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.<br>• Gweithredu argymhellion yr Achos Busnes Amlinellol sy'n weddill a chyflwyno Achos Busnes Llawn i'w gymeradwyo. | | • Cytundeb ariannu i'w gwblhau ac asesiadau rheoli cymhorthdal i'w cwblhau cyn y gellir cyflwyno Achos Busnes Llawn ar gyfer cymeradwyaeth, ond mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd gyda'r telerau cyllido. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Porth wedi'i gwblhau gyda sgôr ambr-gwyrdd wedi'i roi gan y tîm adolygu.<br>• Y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cwblhau adolygiad o'r Achos Busnes Amlinellol drafft ac wedi rhoi adborth. | • Cyfarfod â DESNZ i drafod y cytundeb ariannu a gofynion rheoli cymhorthdal i alinio'r dull yn well.<br>• Trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru a DESNZ i archwilio cyfleoedd ariannu posib i sicrhau cytundebau 'offtake' gan y sector cyhoeddus.<br>• Ariannwr i ddiweddaru'r Achos Busnes Amlinellol a pharatoi i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024. | | • Statws RAG bellach yn ambr gan fod y prosiect yn dibynnu ar gyflawni 50% 'offtake' fydd yn dibynnu ar ymrwymiad y sector cyhoeddus, sy'n dal yn ansicr. . |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir and Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Warren Hall, Brychdyn -** Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar effaith yr achos diogelwch maes awyr Penarlâg ar safle'r prosiect ac mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gydag Airbus UK. Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymgynghorwyr i lunio papur adolygiad ar brofion achos diogelwch y maes awyr a'u heffaith ar safle Warren Hall.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gyfarfod a chytunodd Trafnidiaeth Cymru i ariannu'r asesiad WelTAG 0 fel gwaelodlin diwygiedig ar gyfer llif traffig a mynediad ar ôl y pandemig. Ar ôl cwblhau'r asesiad hwn, gellid cynnal WelTAG Lite i brofi'r dystiolaeth i ddiwallu'r profion buddsoddi priffyrdd a amlinellwyd gan Briffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** Cwblhawyd yr Achos Busnes Amlinellol ym mis Ionawr ac fe'i gymeradwywyd ym mis Chwefror gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'r materion cydsynio sy'n weddill ynghylch amodau cynllunio a thrwyddedau sydd eu hangen i gwblhau gwaith Cam 1 a chaniatáu i'r rhain ddechrau wedi'u cyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych. Mae ceisiadau Rownd 3 i Gronfa Ffyniant Bro'r Cynghorau yn awr yn y broses o gael eu dilysu.<br>• **Porth Caergybi** - Mae achos busnes amlinellol prosiect ehangu Porthladd Caergybi wedi'i gwblhau'n sylweddol. Mae Stena Line Ports Limited wedi gofyn am amser ychwanegol i gwblhau eu trafodaethau masnachol perthnasol.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Mae SP Projects wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi darparu Prif Gynllun safle diwygiedig a chostau lefel uchel am sylwadau gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r rhain wedi'u dychwelyd i SP Project a Llywodraeth Cymru. Cyfarfodydd tîm prosiect rheolaidd i'w sefydlu.<br>• **Stiwdios Kinmel -** Cyfarfod wedi'i gynnal gyda Stiwdios Kinmel ar 12 Mawrth. Aelodau Bwrdd Prosiect wedi'u cyflwyno i Stiwdios Kinmel am gymeradwyaeth. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cysylltu gyda Stiwdios Kinmel a'r sector Addysg Uwch/Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru. Byddant yn rhannu eu hachos busnes cyllido ar gyfer cyllid sector preifat gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio sydd mewn trafodaethau rheolaidd gyda Stiwdios Kinmel.<br>• **Porth Wrecsam -** Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd 300 a mwy o swyddi'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu hadleoli o Lundain/Siroedd Cartref i Wrecsam ym mis Rhagfyr i'w lleoli ar safle Porth Wrecsam. Bydd y Cyngor yn cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol ac yn dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ariannu ac ymgymryd ag asesiad WelTAG 0 ar ran y Cyngor i ddarparu asesiad gwaelodlin o lif traffig a niferoedd fel ag y maent yn 2024. | • Ar ôl cwblhau WelTAG 0, bydd WelTAG Lite yn cael ei wneud gan Drafnidiaeth Cymru i brofi'r dystiolaeth o allu'r prosiectau i ddiwallu'r profion ar gyfer buddsoddiad priffyrdd. | Coch | • Mae sgôr risg y prosiect yn dal yn goch, tra mae'r adolygiad o allu'r prosiectau i gwrdd â phrofion Llywodraeth Cymru am fuddsoddiad priffyrdd yn cael ei gynnal. |
| **Warren Hall, Brychdyn** Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ag Airbus UK i drafod y dystiolaeth a ddarparwyd gan eu hymgynghorwyr ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymgynghorwyr i lunio papur adolygiad o'r datwm Arwyneb Llorweddol Mewnol. | • Llywodraeth Cymru i gynnwys Airbus yng nghwmpas y cam nesaf yn dilyn papur adolygu'r datwm Arwyneb Llorweddol Mewnol a fydd yn comisiynu Asesiad Diogelwch Maes Awyr. | Ambr | • Sgôr risg y prosiect yn dal yn ambr gan fod adolygu achos diogelwch y maes awyr angen cael ei asesu'n llawn o hyd. A'i gytuno gan Airbus UK. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych** Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Chwefror 2024.<br>• Proses ddilysu arian Rownd 3 Ffyniant Bro yn mynd rhagddi.<br>• Dosbarthiadau Cam 1 a phroses asesu gwerth am arian wedi'i modelu ar gyfer cyllid Ffyniant Bro a chyllid y Cynllun Twf.<br>• Mae trefniadau cytundebol yn cael eu trafod gyda Chyngor Sir Ddinbych, Jones Bros, Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd (cytundebau ariannu, S106, trosglwyddo teitl).<br>• Partner y prosiect i gyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Cynllunio ar y cytundeb A106, cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio a thrwyddedau Cynefinoedd. | • Dechrau'r broses gymeradwyo ar gyfer yr achos busnes llawn ym mis Mai 2024.<br>• Sir Ddinbych i ffurfioli dyraniad ariannu Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer y prosiect<br>• Cyfeiriad Cefnogaeth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w gofrestru ar wefan yr Awdurdod.<br>• Y caniatadau statudol sydd eu hangen yn cael eu rhoi gan yr awdurdod cynllunio.<br>• Cytuno/cwblhau gyda Jones Bros a gwaith DCC Cam 1 a'r broses talu a gwirio er dibenion tryloywder a gwerth am arian.<br>• Adolygiad Porth 3 i'w gynnal 8-10fed o Ebrill. | Gwyrdd | • Sgôr risg y prosiect wedi newid yn Wyrdd oherwydd dyfarniad cyllid Ffyniant Bro dros dro i Sir Ddinbych a dyraniad posibl i leihau'r bwlch hyfywedd. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor** Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Penodi Tîm Proffesiynol SP Projects wedi'i gwblhau a Braslun Dichonoldeb (Prif Gynllun) drafft wedi'i rannu gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio am sylwadau. Mae amcangyfrifon cost ar gyfer dadansoddiad pellach o amodau'r plot / cwmpas gofynion gwasanaethau hefyd wedi'u cwblhau. | • Dechrau cyfarfodydd timau prosiect rheolaidd.<br>• Drafftio'r Achos Busnes Amlinellol i ail-ddechrau gyda'r bwriad o gael drafft wedi'i gwblhau ar gyfer gwanwyn 2024.<br>• Cytundeb Menter ar y Cyd i'w gytuno rhwng Partïon. | Gwyrdd | • Y prosiect yn cadw ei sgôr risg gwyrdd. Er y gallai dechrau'r prosiect ar y safle gael ei ohirio am 3 mis. |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Caergybi** Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo'n sylweddol gyda nifer y swyddi diwygiedig wedi'i ddarparu a'i gytuno.<br>• Yn disgwyl am gadarnhad o'r asesiad hyfywedd sy'n ddarostyngedig i drafodaethau Stena gyda defnyddwyr terfynol masnachol.<br>• Y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi drafftio cais Cefnogaeth Cymhorthdal ac yn cael cyngor gan Pinsent Masons. | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladdoedd.<br>• Cyflwyno'r cais am Gefnogaeth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Stena i fwrw ymlaen â'r caffael cam cyntaf cyn cyflwyno'r ail gam Gwahoddiad i Dendro.<br>• Bwrdd Uchelgais a Stena Line Ports Ltd yn cymeradwyo ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol.<br>• Cytundeb telerau rhwng Stena a defnyddwyr terfynol masnachol. | | • Sgôr risg yn cael ei gadw ar ambr gan bod trafodaethau gyda defnyddwyr ardaloedd newydd y porthladd yn dal i ddigwydd. |
| **Stiwdios Kinmel** Stage Fifty | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Mae Stiwdios Kinmel wedi bod yn penodi eu tîm ymgynghori i ddatblygu'r prosiect a mynd at gyllidwyr preifat.<br>• Aelodau'r Bwrdd Prosiect wedi'u cyflwyno i Stiwdios Kinmel am gymeradwyaeth.<br>• Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cysylltu gyda Stiwdios Kinmel a'r sector Addysg Uwch/Addysg Bellach yng ngogledd Cymru. | • Cynnig ariannu diwygiedig ar gyfer y prosiect<br>• Angen cadarnhau model llywodraethu'r prosiect. | | • Sgôr risg ambr gan fod angen cynnig ariannu diwygiedig ar gyfer y prosiect. |
| **Porth Wrecsam** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Cyngor i'w gwblhau ar gyfer y 300 o'r Gwasanaeth Sifil fydd yn cael eu hadleoli i Wrecsam.<br>• Achos Amlinellol Strategol diwygiedig wedi'i dderbyn ac adborth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i ddarparu.<br>• Cyfarfodydd Bwrdd Prosiect misol wedi'u sefydlu. | • Mae'r Achos Busnes Amlinellol Strategol bron â chael ei gwblhau.<br>• Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. | | • Graddfa risg yn wyrdd o ystyried y craffu a'r asesiadau a wnaed ar gyflawnadwyedd prosiect y cais. |





Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Cymeradwywyd Achos Amlinellol Strategol prosiect Anturiaethau Cyfrifol Zip World gan y bwrdd Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan ganiatáu i'r tîm prosiect symud ymlaen gyda datblygiad eu Hachos Busnes Amlinellol.<br>• Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn cwblhau caffael a'u Hachos Busnes Llawn ochr yn ochr â rheoli ymarfer ail-frandio, prosiect ymgysylltu â myfyrwyr wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a dewis is-ganolfan (spoke) derfynol y prosiect.<br>• Mae Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon wedi diweddaru eu cynlluniau prosiect ar sail arolygon amgylcheddol a dderbyniwyd a bydd yn cyflwyno'r cynlluniau diweddaredig i Gyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i archwilio'r bwlch amaeth/garddwriaeth yn y Cynllun Twf wedi derbyn adroddiad ymchwil drafft ac maent yn gweithio gyda'r bwrdd rhaglen a rhan-ddeiliaid ehangach i gwblhau'r adroddiad cyn iddo gael ei rannu'n rhanbarthol. |



**Y Cynghorydd Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Sioned Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae arolygon amgylcheddol sy'n weddill wedi'u cwblhau a'u rhannu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Mae cynlluniau prosiect wedi'u diweddaru wedi cael eu datblygu a'u rhannu gyda Chyngor Gwynedd. | • Ystyried ac ymgorffori adborth gan Gyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Paratoi cais cynllunio llawn.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn ymhellach. | (Coch) | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi dro ar ôl tro gyda'r prosiect a chan nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau eto. |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cefnogi gyda pharatoadau caffael gyda phartneriaid yr Is-ganolfan (spoke).<br>• Proses a dogfennaeth ar gyfer dewis Is-ganolfan (spoke) Derfynol wedi'i ddrafftio a'i rannu gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br>• Gwaith parhaus ar asesiadau allyriadau a bioamrywiaeth, cytundeb ariannu a chynllunio gweithredol. | • Cynllunio a lansio ail-frand y prosiect, yn cynnwys datblygu enw prosiect newydd.<br>• Cwblhau'r cytundeb ariannu yn derfynol.<br>• Lansio a rheoli proses i adnabod is-ganolfan (spoke) derfynol y prosiect.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Llawn yn derfynol. | (Gwyrdd) | • Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2024 |
| **Anturiaethau Cyfrifol**<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen.<br>• Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid drwy ddau weithdy Achos Busnes Gwell ar wahân gan ystyried atyniadau ymwelwyr ac agweddau trafnidiaeth y prosiect.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. | • Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid drwy ddau weithdy Achos Busnes Gwell pellach.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Adolygiad Porth a'r broses gymeradwyo.<br>• Cyflwyno ceisiadau cyn-cynllunio perthnasol. | (Gwyrdd) | • Achos Busnes Amlinellol yn cael ei baratoi ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2024. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Mae'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter bellach yn cael ei adeiladu, y prosiect adeiladu cyntaf a alluogwyd gan Gynllun Twf Gogledd Cymru. Mae caffael pellach ar gyfer y prosiect (adnewyddu opteg, offer y prosiect, elfen hydrogen) dan ddatblygiad a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Ebrill.<br>• Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cytuno i symud i broses gymeradwyo un cam ar gyfer achos busnes y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) yn unol ag argymhellion y Llyfr Gwyrdd - bydd Prifysgol Bangor yn awr yn bwrw ymlaen i fentro gyda chaffael prosiectau ac yna'n ceisio cymeradwyaeth yr Achos Cyfiawnhad Busnes a chaffael cysylltiedig gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Gorffennaf 2024 (yn hytrach na cham cyntaf y broses cymeradwyo dau gam a ragwelir ar gyfer mis Mawrth 2024). |



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol

I'w gadarnhau
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel


| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** Prifysgol Wrecsam | Achos Busnes Llawn | • Contractau rhwng holl bartneriaid y prosiect wedi'u llofnodi ym mis Ionawr 2024.<br>• Gwaith adeiladu wedi dechrau ym Mhlas Coch ym mis Chwefror 2024.<br>• Datblygu tendrau ar gyfer y gwaith OpTIC a phrynu offer. | • Cyhoeddi tendrau ar gyfer y gwaith OpTIC a phrynu offer. | | • Prosiect ar y trywydd iawn |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes | • Cynlluniau dylunio prosiect Cam 4 RIBA wedi'u cwblhau'n derfynol.<br>• Dogfennau caffael wedi'u paratoi<br>• Caffael wedi'i lansio | • Cwblhau'r Achos Cyfiawnhad Busnes yn derfynol cyn ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais.<br>• Paratoi Cytundeb Ariannu. | | • Sgôr wedi'i ddiwygio o Goch i Ambr yn dilyn Adolygiadau Porth a PMO |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| Prosiect | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllun llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Cydnerth (Morlais) | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Egni | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Gwastraff i danwydd Glannau Dyfrdwy | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Y CDLl wedi fabwysiadu ar 23/12/2023 | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Stiwdio Kinmel | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Porth Wrecsam | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Anturiaethau Cyfrifol | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Canolfan Optog a Pheirianneg Menter | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | |

# 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf




| Thema | Prosiect | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Maw-24 | Rhag-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Meh-24 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Awst-22 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Gorff-24 | Maw-25 | Medi-27 |
| | Egni | Rhag-23 | Mai-25 | Awst-26 |
| | Trawsfynydd | Chwef-26 | Meh-26 | Ebr-31 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Chwef-25 | Ebr-27 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Maw-23 | Chwef-25 | Maw-30 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Rhag-23 | Awst-24 | Rhag-25 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Gorff-24 | Ebr-25 | Ion-26 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Gorff-24 | Ebr-25 | Rhag-26 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Medi-25 | Ebr-26 | Medi-27 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Chwef-24 | Gorff-24 | Rhag-25 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Medi-24 | Ebr-25 | Ebr-26 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Meh-25 | Ion-26 | Maw-27 |
| | Stiwdio Kinmel | Gorff-24 | Awst-25 | Maw-27 |
| | Porth Wrecsam | Medi-24 | Medi-25 | Medi-26 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Maw-24 | Awst-24 | Chwef-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Ebr-22 | Chwef-24 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Awst-22 | Ion-25 | Rhag-25 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Hyd-23 | Medi-24 | Meh-26 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Medi-24 | Ion-25 | Awst-25 |

Mae'r statws ar gyfer pob prosiect yn cael ei asesu yn erbyn y proffil hwn o Achos Busnes Portffolio 2023 oni bai bod amserlen newydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais drwy achos busnes prosiect neu gais am newid.

# 10. Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni

| | | Targedau 2023 Achos Busnes y Portffolio | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC FBC | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm | GVA (£M) |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 10 | 35 | 2.96 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | +2 | -2 | +0.04 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 10 | 135 | 4.17 | OBC | 15 | 130 | 4.0 | +5 | -5 | -0.17 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig – 4G+ | 50 | 115 | 9.40 | OBC | 9 | TBC FBC | 8.5 | n/a | n/a | n/a |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig – Ffibr | | | | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 30 | 0 | 20.68 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | 30 | 100 | 8.87 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 35 | 90 | 28.42 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Egni | 30 | 50 | 8.00 | OBC | 19 | 49 | 10.0 | -11 | -1 | +2 |
| | Ynni Lleol Blaengar | 130 | 230 | 102.00 | OBC | 122 | 174 | 106.0 | -8 | -56 | +4 |
| | Trawsfynydd | 70 | 505 | 244.12 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | 20 | 20 | 28.77 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
